OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 1892

## Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw' r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, ac yn dod i rym ar 16 Awst 2010.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1120/2009 dyddiedig 29 Hydref 2009 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu'r cynllun taliad sengl y darperir ar ei gyfer yn Nheitl III o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009(**1**); ac

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 dyddiedig 19 Ionawr 2009 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol i ffermwyr o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac yn sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr(**2**).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn yr UE yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

### Rhanbarth

**3.** Mae Cymru yn rhanbarth sengl at ddibenion Erthygl 46(2) o Reoliad y Cyngor.

### Maint lleiaf daliad ar gyfer sefydlu hawlogaethau

**4.** At ddibenion Erthygl 25(4) o Reoliad y Comisiwn maint lleiaf daliad y ceir gwneud cais am sefydlu hawlogaethau i daliad ar ei gyfer yw 0.3 hectar.

### Hawliad lleiaf

**5.** At ddibenion Erthygl 28(1) o Reoliad y Cyngor y lleiafswm sy'n ofynnol ar gyfer hawliad yw un hectar yn achos ffermwyr nad ydynt yn dal hawlogaethau arbennig yn unol â'r Erthygl honno, a 100 yn achos ffermwyr sy'n dal hawlogaethau arbennig.

(**1**) OJ Rhif L 316, 2.12.2009, t. 10.
(**2**) OJ Rhif L 30, 31.1.2009, t. 16 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 360/2010 (OJ Rhif L 106, 28.4.2010, t. 1).

### Dyddiad pan fo rhaid i dir cymwys fod ar gael at ddefnydd y ffermwr

**6.** Mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn pan fo'r ffermwr yn gwneud datganiad ynglŷn â pharseli yn unol ag Erthygl 35(1) o Reoliad y Cyngor, y dyddiad pan fo rhaid i'r parseli hynny fod ar gael at ddefnydd y ffermwr yw 15 Mai yn y flwyddyn honno.

### Modiwleiddio gwirfoddol

**7.** Y cyfraddau yn nhrydedd golofn yr Atodlen yw'r modiwleiddio gwirfoddol y cyfeirir ato yn Erthygl 1 o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 378/2007 dyddiedig 27 Mawrth 2007 sy'n pennu rheolau ar gyfer modiwleiddio yn wirfoddol y taliadau uniongyrchol(**3**).

### Coedlannau cylchdro byr

**8.** At ddibenion Erthygl 2(n) o Reoliad y Comisiwn—

(a) y rhestr o rywogaethau coed yw—

Gwern (*Alnus spp.*);

Bedw (*Betula spp.*);

Cyll (*Corylus avellana*);

Ynn (*Fraxinus excelsior*);

Pisgwydd (*Tilia cordata*);

Castanwydd (*Castanea sativa*);

Masarn (*Acer pseudoplatanus*);

Helyg (*Salix spp.*);

Poplys (*Populus spp.*);

Oestrwydd (*Carpinus spp.*); a

(b) y cylchdro cynaeafu hwyaf yw 20 mlynedd.

### Hawlogaethau i daliad

**9.** Yn unol â'r trydydd is-baragraff o Erthygl 43(1) o Reoliad y Cyngor, ni cheir defnyddio na throsglwyddo hawlogaethau i daliad o dan y cynllun taliad sengl, sydd i' w priodoli i Gymru ac a sefydlwyd yng Nghymru, ac eithrio o fewn Cymru.

### Dirymu

**10.** Dirymir y Rheoliadau canlynol—

(a) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2005(**4**);

(b) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2006(**5**);

(c) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2008(**6**);

(**3**) OJ Rhif L95, 5.4.2007, t. 1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 (OJ Rhif L 30, 31.1.2009, t. 16).
(**4**) O.S. 2005/360 (Cy. 29).
(**5**) O.S. 2006/357 (Cy. 45).
(**6**) O.S. 2008/2500 (Cy. 218).

(ch) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2009(**7**);

(d) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) 2005(**8**);

(dd) Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Neilltir) (Cymru) (Diwygio) 2006(**9**).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

22 Gorffennaf 2010

(**7**) O.S. 2009/3129 (Cy. 272).
(**8**) O.S. 2005/45 (Cy. 4).
(**9**) O.S. 2006/3101 (Cy. 285).